

# Polisi Diogelu Grwpiau Bregus

**CYNNWYS**

- 1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU**
- 2. PWRPAS**
- 3. CWMPAS**
- 4. MANYLION Y POLISI**
- 5. ADOLYGU PENDERFYNIAD**
- 6. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
- 7. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU**
- 8. CYFEIRNODAU**
- 9. COFNODION**
- 10. ADOLYGU**

**1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU**

| <b>Rhifyn</b> | <b>Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid</b>                | <b>Perchennog y Ddogfen</b> | <b>Dyddiad Rhannu</b> |
|---------------|--|-----------------------------|-----------------------|
| 2             | GDPR, ac i gydymffurfio gyda Chanllawiau Llywodraeth Cymru | Enid Roberts                | Medi 2018             |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |
|               |  |                             |                       |

## 1. PWRPAS

- 1.1. Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rheini sydd o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a pheryglon.
- 1.2. Pwrpas y polisi hwn yw:
  - nodi sut y bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn ymdrin â Diogelu Grwpiau Bregus sy'n cynnwys oedolion bregus a phlant sydd mewn risg.
  - rhoi diffiniad clir o'r term grwpiau bregus, cam-drin ac esgeulustod.
  - sicrhau cysondeb wrth adnabod, adrodd ac ymateb i faterion diogelu.
- 1.3. Mae CCG yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddiogelu grwpiau bregus rhag niwed. Prif amcan y polisi yw amddiffyn a hyrwyddo lles pob grŵp bregus.
- 1.4. Mae'r polisi hwn yn cefnogi ac yn atgyfnerthu polisiâu CCG sydd wedi eu rhestru yn adran 8 ynghyd â deddfwriaeth bresennol a chanllaw'r llywodraeth sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a'r Polisi Dros Dro Cymru Gyfan, Gweithdrefnau ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus rhag Camdriniaeth 2010 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae CCG hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gael cysondeb gyda fframwaith a phrotocolau sydd wedi eu cytuno yn lleol.

## 2. CWMPAS (amlinellu beth sy'n cael ei gynnwys yn y polisi)

- 2.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl denantiaid, darpar denantiaid a phreswylwyr eiddo sy'n berchen i CCG neu bobl eraill lle tybir eu bod mewn risg. Mae'n berthnasol i staff CCG hefyd.
- 2.2. Bydd y polisi yn cefnogi staff CCG wrth ddiogelu lles grwpiau bregus sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion y mae ganddynt gyswllt gyda nhw drwy eu gwaith a gweithgareddau cysylltiol a bydd hefyd yn darparu arweiniad a chefnogaeth i ddiogelu eu hunain rhag honiadau.

## 3. CYFRIFOLDEBAU

- 3.1. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Pobl yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a bod staff CCG wedi eu hyfforddi yn briodol yn y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.
- 3.2. Mae cyfrifoldebau penodol a threfniadau rheoli risg yn cael eu nodi fel matrices yn Atodiad A. Gelir canfod rhestr o ddogfennau cefnogol yn adran 8 o'r polisi hwn.

## 4. MANYLION Y POLISI

- 4.1. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw bod hyn yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod pob unigolyn proffesiynol a sefydliad yn

gwneud popeth y gall i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn risg o gamdriniaeth yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

- 4.2. Mae CCG yn cydnabod bod gan grwpiau bregus yr ydym ni'n darparu gwasanaethau iddynt yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, a'r safon gorau un o ofal.
- 4.3. Mae CCG wedi ymrwymo i amddiffyn grwpiau bregus ac ymdrin â honiadau, pryderon neu ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod yn effeithiol.
- 4.4. Gall camdriniaeth ddigwydd mewn sawl ffordd gan gynnwys:
- Corfforol
  - Rhywiol
  - Emosiynol / Seicolegol
  - Economaidd ac ariannol
  - Esgeulustod
  - Gwahaniaethol a/neu drosedd casineb
  - Cam-drin yn y cartref
  - Priodas dan orfod
  - Caethwasiaeth Fodern, gan gynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth, caethwasiaeth plant, wedi dal mewn dyled, a llafur dan orfod neu lafur gorfodol

Mae diffiniadau cam-drin wedi eu nodi ym mharagraff 7 y polisi hwn.

- 4.5. **Dyletswydd i adrodd** - os oes gan CCG achos rhesymol i amau bod plentyn neu oedolyn:
- yn profi neu mewn risg o gamdriniaeth neu esgeulustod neu fathau eraill o niwed
  - ag angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hyn neu beidio), ac
  - o ganlyniad i'r anghenion hynny yn methu amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r risg o hynny ddigwydd

Bydd CCG yn hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol o'r ffaith honno.

- 4.6. Bydd CCG yn dynodi Rheolwr Diogelu Grwpiau Bregus dynodedig (DGB) sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn ymwneud â Diogelu. Bydd cydgysylltwyr DGB yn cynorthwyo'r rôl y Rheolwr DGB.

|                                    |                                  |
|------------------------------------|----------------------------------|
| <b>Rheolwr DGB dynodedig</b>       | <b>Cydlynwyr DGB Dynodedig</b>   |
| Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwsmeriaid | Rheolwr Cynorthwyol Gwasanaethau |

|  |     |
|--|-----|
| a Chymunedau   | Bro |
| Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pobl - ar gyfer materion staff |     |

- 4.7. Bydd pob achos yn cael ei asesu yn unigol gan fod pa mor fregus yw unigolyn yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau a'u hamgylchedd. Rhoddir ystyriaeth:
- i ba mor fregus neu agored i niwed ydi'r person sydd mewn risg;
  - maint y gamdriniaeth neu esgeulustod;
  - hyd yr amser ac amllder y digwyddiad;
  - effaith ar yr unigolyn;
  - risg o hyn yn digwydd dro ar ôl tro neu waethygu gan gynnwys y grŵp hwn neu grwpiau eraill sydd mewn risg.
- 4.8. Bydd CCG yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i adrodd a'r gofyniad iddynt hysbysu unrhyw bryderon sydd ganddynt yn unol ag H&Sp54c - Proses Adrodd am Bryder o Gamdriniaeth Grwpiau Bregus.
- 4.9. Mae dangosyddion cam-drin ac esgeulustod wedi eu nodi ym mharagraff 8 y polisi yma. Mae CCG yn cydnabod nad yw dangosyddion cam-drin yn golygu yn bendant bod cam-drin wedi/yn digwydd. Fodd bynnag, mae CCG yn gofyn i'w staff, os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn neu oedolyn mewn risg, i adrodd eu pryderon.
- 4.10. **Canllawiau am blant ac oedolion mewn risg** - bydd CCG yn rhoi sylw priodol i unrhyw ganllawiau perthnasol a phrotocolau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Diogelu, ac awdurdodau lleol perthnasol.
- 4.11. **Cyfrinachedd** - Bydd CCG yn cadw cyfrinachedd wrth ymdrin â materion o ddiogelu ond efallai y bydd yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau sy'n bartneriaid yn unol â deddfwriaeth berthnasol a phrotocolau sydd wedi eu cytuno. Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol yn effeithiol rhwng pobl broffesiynol yn hanfodol er mwyn diogelu grwpiau bregus.
- 4.12. Fel arfer, ni fyddai CCG yn rhannu gwybodaeth bersonol heb gydsyniad y person neu warchodwr fel sy'n briodol. Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl wybodaeth bersonol a rennir at ddibenion diogelu. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys sut y rhoddwyd y cydsyniad i rannu gwybodaeth, gyda phwy y rhennir yr wybodaeth, a sut y mae'r wybodaeth wedi'i rannu,
- 4.13. Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle mae rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad yn cael ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd. Er enghraifft lle mae achos rhesymol i dybio bod plentyn neu oedolyn mewn risg o ddioddef niwed mawr, neu i'w rhwystro rhag niwed mawr.

- 4.14. **Darparu gwybodaeth y gofynnir amdano gan y Byrddau Diogelu** - bydd CCG yn cydymffurfio gyda chais a wneir gan y Bwrdd Diogelu i ddarparu gwybodaeth benodol oni bai y byddai gwneud hynny:
- Yn anghydnaws â dyletswyddau CCG, neu
  - Fel arall yn cael effaith andwyol ar y modd y caiff swyddogaethau CCG eu hymarfer
- Os ydi CCG yn penderfynu peidio cydymffurfio â chais am wybodaeth, bydd yn rhoi rheswm (rhesymau) ysgrifenedig i'r Bwrdd Diogelu am ei benderfyniad.
- 4.15. Bydd CCG yn cydymffurfio yn llawn gydag asiantaethau a phartneriaid eraill wrth ymdrin â materion diogelu
- 4.16. Caiff CCG ei gynrychioli mewn cyfarfodydd Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (CARA) a mynychu cynadleddau achos Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfodydd pan fydd gofyn.
- 4.17. **Recrwtio** - Mae manylion llawn recrwtio wedi eu cynnwys ym mholisi Recrwtio a Dewis CCG.
- 4.18. Bydd unrhyw benodiad i swydd sydd â chyswllt rheolaidd sy'n cael ei ddiffinio yn gyfreithiol fel 'gweithgaredd wedi ei reoleiddio' gyda grwpiau bregus yn ddarostyngedig i dderbyn datgeliad manylach Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Disclosure Barring Service - DBS). Mae'r swyddi hyn yn cynnwys:
- Swyddogion Tai Gwarchod
  - Swyddogion Tai Cymunedol
  - Swyddogion Cefnogi
  - Therapyddion Galwedigaethol
  - Warden Safle
- 4.19. Os oes gan ddarpar weithiwr record droseddol, bydd CCG yn mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg wrth benderfynu penodi'r unigolyn ai pheidio. Bydd pa mor ddifrifol yw'r drosedd a'r amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd yn cael ei ystyried.
- 4.20. Unwaith y bydd wedi eu penodi, bydd CCG yn diweddarau gwiriad DBS y gweithiwr bob 3 mlynedd.
- 4.21. **Hyfforddiant** - Bydd staff sy'n ymdrin â grwpiau bregus yn derbyn diweddariadau hyfforddi rheolaidd ar ymdrin ag achosion o gam-drin. Bydd hyfforddiant yn cyd fynd â chanllaw cenedlaethol a gofynion hyfforddi ar gyfer staff mewn perthynas â Diogelu Grwpiau Bregus ar y lefelau hyfforddi sydd wedi eu hadnabod.
- 4.22. Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth pellach yn cael ei gynnal ar gyfer cydlynwyr DGB drwy fforymau fel sgysiau bocs tŵls, briff tîm ayyb.
- 4.23. **Staff** - Mae gan CCG weithdrefnau ar gyfer ymdrin gyda honiadau yn erbyn staff; ac i amddiffyn staff sy'n codi pryderon difrifol am arferion (chwythu'r chwiban).

- 4.24. **Cyflenwyr** - Bydd pob prosiect caffael yn cael ei asesu am risgiau diogelu; a bydd CCG yn annog safonau diogelu yn ein cyflenwyr i sicrhau bod grwpiau bregus yn cael eu hamddiffyn.
- 4.25. Lle caiff gwasanaethau eu darparu gan drydydd parti, mae CCG yn disgwyl i'r trydydd parti hynny gydymffurfio â'n polisiau mewnol a holl ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â diogelu grwpiau bregus ac yn unol â'r polisi hwn. Bydd cymalau contract diogelu sylfaenol yn cael eu cynnwys mewn contractau lle'n briodol.
- 4.26. Lle'n berthnasol, bydd gofyn i gyflenwyr sicrhau bod polisiau diogelu priodol a gweithdrefnau ar waith (gan gynnwys proses recriwtio staff ac isgcontractwyr, trefniadau dewis a fetio) a systemau cyn dyfarnu contract iddynt.
- 4.27. Lle, trwy ddarparu gwasanaeth i CCG mae gan aelod o staff y cyflenwr bryderon difrifol mewn perthynas ag amddiffyn grwpiau bregus, rhaid iddynt godi'r pryderon yn unol â gweithdrefnau mewnol sydd wedi'u rhoi ar waith gan eu cwmni. Os nad oes trefniadau o'r fath yn bodoli, disgwylir i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r Awdurdod Lleol perthnasol.

## 5. ADOLYGU PENDERFYNIAD

- 5.1. Mae CCG yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn derbyn sylw fel cwyn o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon.
- 5.2. Bydd CCG yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

## 6. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 6.1. Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd CCG yn ymrwymo i ymdrin â phob unigolyn yn deg ac yn unol â'i bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- 6.2. Ein hamcan yw ymateb yn brydlon a sensitif i anghenion a hawliau unigolyn gan ystyried hil a'i g/chefndir diwylliannol, rhywedd, cred grefyddol, rhywioldeb, oed ac anabled.

## 7. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

- 7.1. Mae CCG yn darparu'r diffiniadau canlynol o bobl sy'n cael eu hystyried fel eu bod mewn **grwpiau bregus**:
- Caiff **oedolion bregus** eu diffinio fel rhywun sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn sydd angen gwasanaethau gofal y gymuned neu all fod angen oherwydd problemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu neu anabled arall, oed neu salwch; neu sydd ddim neu efallai ddim yn gallu gofalu amdanynt eu hunain neu amddiffyn eu hunain rhag niwed neu gael eu hecsbloetio.
  - Caiff **plentyn neu berson ifanc** ei ddefnyddio i gyfeirio at rywun o dan 18 mlwydd oed



- 7.2. Mae'r term '**staff**' yn cyfeirio at staff llawn amser a staff rhan amser, gweithwyr parhaol neu dros dro i CCG yn ogystal â staff asiantaeth a rhai ar brofiad gwaith gyda CCG.
- 7.3. Mae "**cam-drin**" yn golygu camdriniaeth corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol (ac yn cynnwys cam-drin yn digwydd mewn unrhyw le, boed yn annedd preifat, sefydliad neu unrhyw le arall), ac mae "camdriniaeth ariannol" yn cynnwys:
- Cael arian neu eiddo arall wedi'i ddwyn;
  - Cael eich twyllo;
  - cael eich rhoi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
  - Camddefnydd o arian neu eiddo arall.
- 7.4. Mae "**esgeulustod**" yn golygu'r anallu i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu feddyliol sylfaenol person ifanc neu oedolyn a all olygu nam difrifol i'w llesiant (er enghraifft, amhariad ar iechyd unigolyn, neu, yn achos plentyn amhariad ar ddatblygiad plentyn).
- 7.5. **CATEGORïAU CAM-DRIN:**

**Cam-drin corfforol** - gan gynnwys taro, dyrnu, cicio, brathu, tynnu gwallt a tharo rhywun gyda gwrthrych. Gall anafiadau amlwg gynnwys cleisiau, briwiau a thoriadau. Anafiadau eraill nad ydynt yn amlwg fyddai anafiadau mewnol a cholli plentyn.

Mae cam-drin corfforol yn unrhyw boen corfforol, dioddefaint neu anaf wedi ei achosi gan berson sydd â chyfrifoldeb, gofal neu warchodaeth neu lle mae plentyn, person ifanc neu oedolyn yn ymddiried ynddynt. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau neu yn achosi anhwylder i berson ifanc neu oedolyn y maent yn edrych ar ei ôl. Efallai y gall y sefyllfa gael ei ddisgrifio fel ei fod yn ffug neu yn salwch wedi ei greu gan y gofalwr.

**Cam-drin rhywiol** - gan gynnwys treisio a gweithrediadau rhywiol heb i'r unigolyn gytuno iddo. Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo person ifanc neu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol uniongyrchol neu anuniongyrchol lle maent yn anfodlon neu ddim yn gallu rhoi eu cysyniad neu le nad ydynt yn ei lawn ddeall neu sy'n mynd yn groes i dabw cymdeithasol o rôl y teulu, er enghraifft, llosgach. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol gan gynnwys gweithrediadau treiddiol neu ddim yn dreiddiol.

**Cam-drin emosiynol a/neu gam-drin seicolegol** - gall y math yma o gam-drin gynnwys brawychu, cam-drin geiriol, codi cywilydd a bychanu. Mae unrhyw ymddygiad sy'n achosi ofn hefyd wedi ei gynnwys a gall hynny gynnwys gweiddi, syllu, bygythio, ystumio, malurio eiddo, tawelwch am gyfnod hir ac aflonyddu. Hefyd ymddygiad o geisio rheoli rhywun fel ynysu unigolyn rhag ffrindiau, teulu a chefnogaeth a goruchwyllo eu bywyd bob dydd.

Cam-drin emosiynol neu seicolegol ydi cam-drin person ifanc neu oedolyn, weithiau yn gyson gan achosi dioddefaint meddyliol. Fe all gynnwys dweud wrth berson ifanc neu oedolyn eu bod yn ddi-werth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol cyn belled â'u bod yn cwrdd ag anghenion person arall. Fe all gynnwys oed neu nod disgwyliadau amhriodol yn cael eu rhoi arnynt. Fe all gynnwys achosi iddynt deimlo ofn neu mewn perygl yn gyson, er enghraifft drwy weld cam-drin yn y cartref neu gael eu bwlio neu ecsbloetio neu lygru meddwl person ifanc neu oedolyn. Mae yna lefel o gamdriniaeth emosiynol ynghlwm â phob math o gam-drin plentyn neu oedolyn, er efallai ei fod yn digwydd ei hun.

**Cam-drin economaidd ac ariannol** (gall y math yma o gam-drin gynnwys rheoli neu ddal arian yn ôl neu gael mynediad i arian, mynnu cael derbynneb am bopeth sydd wedi ei wario neu ddarparu lwfans gan wybod nad yw'n ddigon ac yna defnyddio gorwario fel rheswm i gosbi. Cam-drin ariannol neu economaidd yw unrhyw ddwyn neu gamdefnyddio arian berson, eiddo neu adnoddau gan berson y mae'r plentyn, person ifanc neu oedolyn yn ymddiried ynddo.

**Esgeulustod** yw'r anallu di-baid i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu feddyliol sylfaenol person ifanc neu oedolyn a all olygu nam difrifol i'w iechyd neu ddatblygiad. Fe all gynnwys rhiant neu warchodwr ddim yn darparu digon o fwyd, cysgod, dillad, methiant i'w diogelu rhag niwed corfforol neu berygl neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal a thriniaeth feddygol. Gall hefyd gynnwys esgeulustod neu ddiffyg ymateb i'r anghenion emosiynol sylfaenol. Hefyd, gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau.

**Gwahaniaethu a Throsedd Casineb** - Gall hyn fod ynghlwm ag unrhyw gam-drin plentyn, person ifanc neu oedolyn ond gall hefyd gael ei annog oherwydd eu hoed, newid rhyw, rhywedd, hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), anabledd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred).

**Trais yn y Cartref** - yn cael ei ddiffinio fel arfer fel digwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad o reoli, gorfodi neu fygwth, trais neu gam-drin rhwng rhai dros 16 mlwydd oed sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu er gwaethaf eu rhywedd neu rywioldeb.

**Priodas dan Orfod** - Caiff hwn ei ddiffinio fel priodas wedi ei gynnal heb ganiatâd dilys y ddau barti i'r briodas a bod yna unrhyw fath o orfodaeth.

**Caethwasiaeth Fodern** - gorfodi i weithio - trwy orfodaeth, neu fygythiadau meddyliol neu gorfforol; 'cyflogwr yn 'berchen' ar yr unigolyn neu yn cael ei reoli gan y cyflogwr, trwy gamdriniaeth feddyliol neu gorfforol neu'r bygythiad o gamdriniaeth; ddim yn cael ei drin fel bod dynol, yn cael ei drin fel nwyddau neu yn cael ei brynu a'i werthu fel 'eiddo'; yn cael ei rwystro'n gorfforol neu gyda chyfyngiadau yn cael ei osod ar ei ryddid i symud

## 7.6. ENGHREIFFTIAU A DANGOSYDDION O DRAIS AC ESGEULUSTOD

- Mae enghreifftiau amlwg o **gam-drin corfforol** yn cynnwys: taro, gwthio, ataliad corfforol afresymol, brawychiad corfforol, dyrnu, tynnu, gorfodi rhywun wneud rhywbeth yn erbyn eu hewyllys.
- Mae dangosyddion posib o **gam-drin corfforol** yn cynnwys: niwed sydd ddim yn cyd-fynd a'r eglurhad, niwed sydd heb dderbyn sylw digonol; toriadau, crafiad, rhwygiad, cleisiau, marciau bysedd a phinsio, llosgiadau a sgaldiadau, gwingo.
- Mae enghreifftiau amlwg o **gam-drin rhywiol** yn cynnwys: treisio, ymosodiad rhywiol wedi digwydd neu wedi ei fygwth, camddefnydd o bŵer er mwyn cael boddhad rhywiol, defnydd amhriodol o iaith rywiol benodol sy'n achosi tramgwydd, cam-drin sydd ddim yn cyffwrdd, (er enghraifft, edrych, tynnu llun, dinoethiad anwedus, aflonyddu) profocio neu ensyniadau rhywiol.
- Mae dangosyddion posib o **gam-drin rhywiol** yn cynnwys: trafferth cerdded neu eistedd, newid mewn tymer, yn rhy serchog, newid mewn ymddygiad arferol, cilio, 'love bites'.
- Mae enghreifftiau amlwg o **gam-drin emosiynol neu seicolegol** yn cynnwys: ymosodiad geiriol (er enghraifft bloeddio a sgrechian), codi cywilydd, bygythiadau, peidio â rhoi parch i berson, peidio dangos urddas ac anwyldeb, bwlio, galw enwau, gwawdio, cariad amodol, gwadu mynediad i gadwraeth ddiwylliannol neu grefyddol.
- Mae dangosyddion posib o **gam-drin emosiynol neu seicolegol** yn cynnwys: lefelau uchel o bryder/straen yn enwedig mewn ymateb i unigolion penodol neu amgylchiadau; hunan niweidio; cynnwrf, ofn, arwyddion o iselder (megis meddwl am hunanladdiad), yn crefu am anwyldeb yn ormodol neu'n amhriodol, eisiau plesio, rhedeg i ffwrdd neu ddim eisiau mynd adref.
- Mae enghreifftiau amlwg o gam-drin ariannol ac economaidd yn cynnwys: dwyn arian neu eiddo plentyn, person ifanc neu oedolyn; camddefnyddio arian ac eiddo plentyn, person ifanc neu oedolyn; cael arian neu eiddo drwy fygwth, perswadio neu ecsbloetio.
- Mae dangosyddion posib o **gam-drin ariannol ac economaidd** yn cynnwys: diffyg cyfleusterau (er enghraifft diffyg dillad addas, deunyddiau ar gyfer yr ysgol) y byddai plentyn, person ifanc neu oedolyn yn gallu eu fforddio yn rhesymol, eitemau personol 'ar goll' fel gemwaith, ffôn symudol ayyb.
- Mae enghreifftiau amlwg o **esgeulustod** yn cynnwys: methiant i ddarparu bwyd, cysgod neu ddillad i blentyn, person ifanc neu oedolyn, methiant i amddiffyn eu hiechyd a pheryglon diogelwch, cyfyngu plentyn, person ifanc neu oedolyn i ystafell ar ben eu hunain, cyfyngu neu atal cyswllt cymdeithasol gyda ffrindiau neu berthnasau.

- Mae dangosyddion posib o **esgeulustod** yn cynnwys: iechyd cyffredinol yn gwaethygu, dillad anaddas ar gyfer y math o dywydd, cyflwr iechyd heb ei drin, brech, doluriau, llau, diffyg goruchwyliaeth yn gyson un ai adref neu yn ystod gweithgareddau sy'n beryglus iddynt.

7.7. CARA – Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol

## 8. CYFEIRNODAU

- 8.1. Wrth ddrafftio'r polisi hwn rydym wedi cyfeirio at y cyhoeddiadau a deddfwriaethau canlynol:
- 8.2. Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998
- 8.3. Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- 8.4. Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- 8.5. Polisi a Gweithdrefnau dros Dro Cymru gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus rhag Camdriniaeth 2010
- 8.6. <http://www.northwalessafeguardingboard.wales/policies-and-procedures/>
- 8.7. Deddf Cydraddoldeb 2010
- 8.8. Deddf Diogelu Rhyddiadau 2012
- 8.9. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,
- 8.10. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- 8.11. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015,
- 8.12. Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 - Cyflwyniad a throsolwg
- 8.13. TSpol01c Polisi - Cam-drin yn y Cartref
- 8.14. NSpol01 - Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- 8.15. HRp04 - Rheoli Recriwtio
- 8.16. L&Dpol01c - Polisi Dysgu a Datblygu
- 8.17. HRp07c – Gweithdrefn Disgyblu a Chwyno
- 8.18. HRpol11c -Cod Ymddygiad
- 8.19. Hrp018c - Polisi Chwythu'r Chwiban
- 8.20. CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon
- 8.21. E&Dpol01c - Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- 8.22. HSI02 - Taflen Gwybodaeth Diogelu Grwpiau Bregus
- 8.23. HSf43 – Ffurflen Gyfeirio Diogelu Grwpiau Bregus

8.24. HSp54c – Map Proses i Adrodd ar Amheuaeth o Gamdriniaeth

**9. COFNODION**

9.1. Mae'n bwysig bod cofnodion yn ymwneud â honiadau o gam-drin yn cael ei storio yn ddiogel. Bydd cofnodion electroneg ond yn cael eu harbed yn y system rheoli tai.

**10. ADOLYGU**

10.1. Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newid i unrhyw bolisiâu perthnasol eraill CCG Cyf.

**ATODIAD A - CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU**

Allwedd:

|          |   |
|----------|---|
| <b>C</b> | = <b>Cyfrifol:</b> Person sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau rheoli risg fel sy'n cael eu manylu uchod yn cael eu gweithredu o fewn eu timau |
| <b>A</b> | = <b>Atebol:</b> Person cyfrifol am bob gweithred sydd wedi eu manylu yn y matrices   |
| <b>Y</b> | = <b>Ymgynghori:</b> Unigolion/Timau sy'n cael eu ymgynghori #ar drefniadau rheoli risg fel caiff eu manylu isod                                  |

**G= Gwybodaeth: Unigolion/Timau yn cael gwybod drwy hyfforddiant, briffiau, sgysrsiau bocs tŵls neu drwy ymfarfaryddo eu hunain gyda phrosesau, gweithdrefnau a chanllaw ar gael ar Clic**

| TREFNIADAU RHEOLI RISG   | Prif Weithredwr | Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau | Cyfarwyddwyr Cynorthwyl Gwasanaethau Pobl | Rheolwr Diogelu (Cyfarwyddwr Cynorthwyl Cwsmeriaid a Chymunedau) | Cydgysylltwyr Diogelu (Rheolwr Cynorthwyl Gwasanaethau Bro) | Rheolwr Gwasanaethau Bro | Rheolwr Caffael | Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer | Pennaeth TGCh | Rheolwr IDA | Holl staff |
|--|-----------------|-------------------------------------|---|--|---|--------------------------|-----------------|-----------------------------|---------------|-------------|------------|
| Sicrhau ymrwymiad i gyflawni ein strategaeth a gofynion sicrwydd IDAA drwy sicrhau bod dogfennau a phrosesau yn cael eu datblygu i ymdrin â materion Diogelu ac adrodd am honiadau o gam-drin.   | A               | R                                   | I   | I  | I   | I                        | I               | I                           | I             | I           | I          |
| Sicrhau bod y polisi yma yn cael ei gymhwyso yn effeithiol.  | I               | R                                   | R   | I  | I   | I                        | I               | I                           | I             | I           | I          |
| Pob aelod o staff newydd, sydd wedi eu hadnabod fel eu bod yn ymgymryd â gweithgaredd wedi ei reoleiddio, wedi gwneud cais am "ddatgeliad manylach" a "gwiriad rhestr gwahardd" yn unol â gweithdrefnau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). | I               | I                                   | R   | I  | I   | R                        | I               | I                           | I             | I           | I          |
| Staff presennol sy'n newid eu rôl o fewn CCG nad oedd wedi cael "datgeliad manylach" yn flaenorol i wneud cais am un yn unol â gweithdrefnau y GDG.  | I               | I                                   | R   | I  | I   | R                        | I               | I                           | I             | I           | I          |
| Staff lle mae gofyn iddynt gael "datgeliad manylach" i gael eu gwiriad wedi ei adolygu bob 3 blynedd   | I               | I                                   | R   | I  | I   | R                        | I               | I                           | I             | I           | I          |

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni chaiff staff perthnasol weithio gyda grwpiau bregus hyd y bydd y gwiriadau wedi'u prosesu a'u clirio gan AD.   | I | I | R | I | I | R | I | I | I | I | I |
| Gwiriadau cyn cyflogaeth i'w cynnal a'u clirio gan AD (e.e. tystlythyrau ayb)   | I | I | R | I | I | C | I | I | I | I | I |
| Rhaid cwblhau asesiad risg i leddfu unrhyw gyswllt un i un heb ei oruchwylio gan staff sy'n ymgymryd â phrentisiaid a phrofiad gwaith   | I | I | C | I | C | R | I | I | I | I | I |
| Ymwelwyr ac unigolion sy'n gwneud gwaith cysgodol i gael eu goruchwylio bob amser a pheidio â chael mynediad heb ei oruchwylio un i un gydag unigolion bregus                                   | I | I | C | C | I | R | I | I | I | I | I |
| Contractwyr ac is-contractwyr i gael polisiâu a gweithdrefnau DGB ar waith gan gynnwys gwiriadau datgelu lle caiff ei weld yn briodol   | I | I | C | I | C | R | R | I | I | I | I |
| Rheolwr DGB dynodedig a dirprwyon wedi eu hadnabod  | I | I | R | C | C | I | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod gweithdrefnau a phrosesau ar waith i alluogi staff i ddefnyddio gwybodaeth sy'n awgrymu bod camdriniaeth/esgeuluso yn digwydd neu bod yn risg bod camdriniaeth/esgeuluso yn digwydd | I | R | R | R | R | C | I | I | I | C | I |
| Adnabod ac adrodd unrhyw bryderon am risg o niwed i unrhyw berson bregus neu grwpiau yn unol â gweithdrefnau a phrosesau  | I | C | C | R | R | I | I | I | I | C | R |
| Cydgysylltwyr DBG dynodedig i fod yn gyfrifol am wneud atgyfeiriadau yn seiliedig ar wybodaeth sydd wedi'i dderbyn gan staff.   | I | I | I | C | R | I | I | I | I | I | I |
| Cydlynwyr DGB Dynodedig i drafod gyda Gwasanaethau Cymdeithasol   | I | I | I | C | R | I | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod y Cod Ymddygiad ar waith, wedi'i rannu gyda staff a'i   | I | R | R | R | R | R | I | I | I | I | I |

|  |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|--|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| adolygu yn rheolaidd   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
| Sicrhau bod y Polisi Diogelu Data ar waith, wedi ei rannu â staff a chwsmeriaid a'i adolygu yn rheolaidd   | I | I | R | C | C | C | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod y Polisi Chwythu'r Chwiban ar waith, wedi ei rannu â staff a'i adolygu yn rheolaidd  | I | I | R | C | C | C | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth DGB fel rhan o'u rhaglen anwytho  | I | R | R | R | C | C | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod pob aelod o staff lle mae disgwyl iddynt gael cyswllt heb ei oruchwylio gyda phobl ifanc ac oedolion i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth, adnabod ac atgyfeirio lefel 2. | I | I | R | C | C | C | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod Hyfforddiant Lefel 2 i'w wneud o leiaf bob 3 blynedd   | I | R | R | C | C | R | I | I | I | I | I |
| Sicrhau bod system electronig gyfrinachol yn cael ei sefydlu a'i gynnal i gadw gwybodaeth ar bob achos sydd wedi ei gyfeirio a dogfennau cefnogol                                  | I | C | C | R | R | I | I | I | R | C | I |
| Hysbysu Pennaeth IDA (lle bod angen) bod angen pecynnau cymorth ychwanegol i fod ar gael i sicrhau bod dyletswyddau yn cael eu cyflawni yn llawn                                   | I | R | R | R | R | R | R | R | R | C | I |
| Bydd ceisiadau i adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud a'r polisi yma yn cael ei drin fel cwyn o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon                                      | I | C | C | C | C | C | C | R | I | I | I |
| Adrodd unrhyw bryder am ddiogelwch neu risg o niwed i berson neu grŵp bregus yn unol â H&Sp54 - Proses Adrodd am Bryder o Gamdriniaeth Grwpiau Bregus.                             | I | R | R | R | R | R | R | R | R | R | R |